# Hanner Can Mlynedd o Adfywio'r Cymoedd – Beth yw'r Gwersi?

## Cynnwys


Hanner can mlynedd o adfywio ........ 2
1. A yw "problemau anhydrin" y Cymoedd yn anhydrin mewn gwirionedd? ........ 3
   1.1 Cynyddu lefel sgiliau'r gweithlu ........ 4
   1.2 Cryfhau'r sylfaen economaidd a chynyddu cysylltedd ........ 4
   1.3 Lleihau rhwystrau iechyd i dwf ........ 6
   1.4 Gwella'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig ........ 7
2. Beth sydd wedi llwyddo mewn ardaloedd eraill? ........ 8
   2.1 Meysydd glo eraill ........ 8
   2.2 Ardaloedd difreintiedig eraill yn Ewrop ........ 9
   2.3 Parciau Rhanbarthol ........ 9
   2.4 Dinas-ranbarthau ........ 10
   2.5 Modelau eraill ........ 10
3. Y Gwersi a Ddysgwyd: Arferion gorau ym maes prosiectau adfywio ........ 11
   3.1 Arferion da wrth weithio mewn partneriaeth ........ 11
   3.2 Arferion da sy'n gwella darpariaeth leol ........ 12
   3.3 Arferion da ar gyfer cynyddu maint ac effaith rhaglenni ........ 14
   3.4 Arferion da ar gyfer prosiectau adfywio canol trefi a gwella tai ........ 15
   3.5 Arferion da ar gyfer prosesau rhaglenni ........ 16
Y gwersi a ddysgwyd ........ 16

# Hanner can mlynedd o adfywio

Mae arian sylweddol wedi'i fuddsoddi i adfywio rhanbarth y Cymoedd ers y 1960au, ond yn anffodus nid oes gennym sylfaen dystiolaeth gref i nodi pa raglenni a phrosiectau sydd wedi llwyddo i leihau anghyfartaledd economaidd rhwng y Cymoedd a gweddill Cymru. Rhan o'r rheswm am hyn yw bod nifer y rhaglenni adfywio yn fach iawn o gymharu â maint yr economi yn ei chyfanrwydd. Er enghraifft, er bod sawl biliwn o bunnoedd o arian Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ac arian domestig cyfatebol wedi'u buddsoddi yn ystod y cyfnod hwn, mae'r ffigur hwn yn gyfystyr â thua 1% o economi'r rhanbarth yn unig.[1] O ganlyniad, mae'n anodd, os nad yn amhosibl, nodi neu briodoli achos ac effaith.

Yn ogystal, nid yw llawer o'r rhaglenni adfywio cynharach wedi'u gwerthuso - rhaglenni sydd wedi cael amser i greu effaith. Mae'n rhy gynnar i nodi effaith llawer o'r rhaglenni adfywio diweddarach ar y prif ddangosyddion adfywio (fel y rhai yn **Atodiad 1**). Mae problem arall yn deillio o'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r gwerthusiadau wedi canolbwyntio ar asesu prosesau'r prosiectau, yn hytrach nag ar y canlyniadau, a hyd yn oed pan fydd canlyniadau'n cael eu mesur, mae'r amserlenni'n rhy fyr a mesurau'r canlyniadau'n rhy anghyson i allu dod i unrhyw gasgliadau pendant. Gall un prosiect fesur newidiadau i nifer yr ymwelwyr â chanol trefi, tra bod un arall yn mesur nifer y swyddi sydd wedi'u creu, ond nid yw'r naill na'r llall yn debygol o fod wedi mesur yr effaith ar y prif ddangosyddion adfywio neu ar facro-economi'r rhanbarth.

Serch hynny, rydym yn deall yn gymharol dda sut mae'r dull gweithredu ym maes adfywio wedi newid dros amser. Mae **Atodiad 2** yn dangos llinell amser. O gyfnod y 1960au, roedd gwaith adfywio yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar adfer tir. Dechreuodd pethau newid o ddiwedd y 1980au ymlaen. Yn hytrach na chanolbwyntio'n bennaf ar ymdrechion o'r brig i lawr a phrosiectau adfywio ffisegol un thema, bellach roedd y gwaith yn cael ei wneud gan bartneriaethau a mentrau cymunedol lleol yn aml. Hefyd, roedd y gwaith adfywio yn canolbwyntio ar ganol trefi ac yn ceisio datblygu sgiliau a swyddi ochr yn ochr â gwella'r amgylchedd.

Erbyn cyfnod datblygu Cynllun Gofodol Cymru (2008), roedd adfywio yn cael ei ystyried yn faes sy'n cynnwys gweithgareddau a buddsoddiad ym meysydd trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, tai a mewnfuddsoddiad. Roedd prosiectau un pwnc yn gyffredin o hyd, ond roedd ymdrechion ar waith i gysylltu'r rhain â chynlluniau adfywio ehangach. Yn y cyfamser, cyflwynwyd llawer o raglenni ar wahân eraill yn y rhanbarth a oedd â chysylltiadau cryf â'r economi ranbarthol, gan gynnwys rhaglenni i hybu cyrhaeddiad addysgol, cynyddu gweithgareddau arloesi a chynyddu cyfraddau sefydlu busnesau.

Er nad oes gennym lawer o dystiolaeth o'r Cymoedd ynglŷn ag effaith y rhaglenni adfywio ar economi'r rhanbarth, mae modd defnyddio gwaith theori (adran 1 o'r papur hwn) a thystiolaeth o ardaloedd eraill (adran 2) i asesu pa raglenni sy'n debygol o fod wedi cael yr effaith fwyaf ar leihau anghyfartaledd economaidd. Hefyd, mae sylfaen dystiolaeth sylweddol ar gael o ranbarth y Cymoedd ynglŷn â'r mathau o brosiectau adfywio sy'n llwyddo (adran 3).

---

[1] Cyfrifiad cefn amlen i roi bras amcan: mae gwerth £6 miliwn o gronfeydd strwythurol yr UE gan gynnwys arian domestig cyfatebol rhwng 2000 a 2014 yn gyfystyr â £0.43 biliwn y flwyddyn. Pe bai'r cyllid hwn yn cael ei wario yn ardaloedd Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth 3 Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot, y Cymoedd Canol a Chymoedd Gwent (er nad yw'n cael ei wario yn yr ardaloedd hyn), byddai'n gyfystyr â 1.4% o werth ychwanegol gros y rhanbarth yn unig (£30.6 biliwn yn 2014).

Os oedd y don gyntaf o brosiectau adfywio yn y Cymoedd yn ymwneud ag adfer tir, a'r ail don yn ymwneud â mentrau cymunedol yn bennaf, erbyn hyn rydym yn ystyried y ffordd orau o ddatblygu'r drydedd genhedlaeth o raglenni: Adfywio'r Cymoedd 3.0? Un cwestiwn canolog yw a ydym eisiau diffinio 'rhaglen adfywio' fel rhaglen sy'n ymwneud ag adfywio'r amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol yn bennaf, neu raglen sy'n ymwneud ag adfywio economaidd yn bennaf. Os ydym yn dewis yr ail ddiffiniad, mae'n rhaid ystyried i ba raddau rydym yn cynnwys ein gweithgareddau ehangach ym meysydd y blynyddoedd cynnar, addysg a sgiliau, trafnidiaeth a chymorth busnes yn fwy canolog yn ein dulliau gweithredu seiliedig ar leoedd.

> *"While most of the physical regeneration has been dealt with, more needs to be done to tackle the economic, social and deprivation issues that still remain."* Bwrdd Adolygu Adfywio'r Meysydd Glo (2010) t. 8.

# 1. A yw "problemau anhydrin" y Cymoedd yn anhydrin mewn gwirionedd?

> *"The Heads of the Valleys have the most intractable development problems of any older industrial area in the whole of Britain… While none of the problems of the Valleys are unique, what is different about them compared with similar old industrial areas of the United Kingdom is the extent of their combination."* Future of the Valleys, Sefydliad Materion Cymreig 2008, tudalen 57

Mae **Atodiad 1** yn dangos bod meysydd glo Prydain yn perfformio'n waeth o lawer na gweddill Prydain o safbwynt sawl dangosydd adfywio, iechyd, dwysedd swyddi, cyfraddau cyflogaeth, ac enillion.[2] Hefyd, mae'n dangos bod y gwaith o adfywio'r Cymoedd (maes glo'r De) ymhell ar ei hôl hi o'i gymharu â'r 15 prif faes glo arall.

Fodd bynnag, wrth gymharu'r Cymoedd â meysydd glo eraill, nid yw adolygwyr yn dod i'r casgliad bod ymdrechion i adfywio'r ardal wedi methu. Yn hytrach, maent yn dadlau bod llawer iawn wedi'i gyflawni, a bod y cynnydd araf i'w briodoli i'r ffaith fod y Cymoedd yn wynebu rhwystrau arwyddocaol iawn i adfywiad economaidd. Mae adolygwyr (gweler y cyfeiriadau yn y troednodyn) yn nodi pedwar prif rwystr:

1. *Gweithlu â sgiliau isel*[3,4]
2. *Sylfaen economaidd wan ac arwahanrwydd*[2, 3, 4, 5]
3. *"Ffenomen Budd-dal Analluogrwydd"*[2, 3, 4, 5]
4. *Amgylchedd a stoc tai gwael*[3, 4]

Mae'r adran hon yn ystyried tystiolaeth ynglŷn â'r graddau y mae'r "problemau anhydrin" hyn wedi'u gwella, a chyfraniad posibl rhaglenni adfywio neu wasanaethau cyhoeddus craidd eraill.

---

[2] *Foden et al. (2014) Adroddiad State of the Coalfields, Prifysgol Sheffield Hallam*
[3] *Bwrdd Adfywio'r Meysydd Glo (2010) A Review of Coalfield Regeneration*
[4] *Sefydliad Bevan (2010) Forty Years of Regeneration in the Upper Afan Valley*
[5] *Fothergill (2008) The Most Intractable Development Region in the UK yn Osmond (2008) Futures for the Heads of the Valleys, Sefydliad Materion Cymreig*

## 1.1 Cynyddu lefel sgiliau'r gweithlu

*"Fast-growing less developed regions tend to have higher levels of human capital…For all regions, human capital appears to be critical. Overall, reducing the proportion of people in a region with very low skills seems to matter more than increasing the share with very high level skills".* Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2012) Promoting Growth in All Regions. Lessons from across the OECD.

Mae cynyddu lefelau sgiliau, neu'n fwy penodol, lleihau cyfran y bobl sydd â sgiliau isel, wedi'i nodi gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) fel ffactor allweddol ar gyfer datblygiad rhanbarthol, yn enwedig mewn rhanbarthau sy'n llai datblygedig ar hyn o bryd.

Mae data ar gyfer y rhanbarth (**Atodiad 3**) yn dangos bod lefelau sgiliau ymysg oedolion oedran gweithio wedi bod yn cynyddu a bod cynnydd penodol wedi bod yng nghyfran y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol â chymwysterau Lefel 2 neu uwch.

Heb os, mae gwasanaethau cyhoeddus craidd (y blynyddoedd cynnar, ysgolion, colegau, addysg oedolion) wedi gwneud cyfraniad hanfodol at y cynnydd hwn. Mae mentrau eraill nad ydynt wedi'u labelu'n "rhaglenni adfywio" wedi gwneud cyfraniad hefyd drwy helpu i wella cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc o aelwydydd difreintiedig. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys Dechrau'n Deg, Her Ysgolion Cymru, y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, a'r Grant Amddifadedd Ysgolion. Hefyd, mae mentrau penodol wedi'u rhoi ar waith i ddatblygu sgiliau sector penodol, fel Canolfan Sgiliau Gwyrdd Nwy Prydain yn Nhredegar.

Fodd bynnag, mae'n debygol bod rhaglenni adfywio a ariennir gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd wedi gwneud cyfraniad pwysig hefyd. Mae llawer o brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi ymwneud ag uwchsgilio. Rhwng 2000 a 2006, llwyddodd y cronfeydd i gynorthwyo cyfranogwyr ledled Cymru i ennill 201,000 o gymwysterau addysgol a galwedigaethol, a rhwng 2007 a 2013 llwyddodd y rhaglenni i helpu cyfranogwyr i ennill 223,000 o gymwysterau. Byddai angen gwneud rhagor o waith i nodi pa brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop sydd wedi bod yn fwyaf llwyddiannus yn rhanbarth y Cymoedd, ond mae rhai o'r prosiectau mawr yn cynnwys:

- Sgiliau Twf Cymru
- Prentisiaethau gyda'r gorau yn y byd ar gyfer Adfywio Economaidd
- Hyfforddeiaethau gyda'r gorau yn y byd sy'n ennyn diddordeb Pobl Ifanc

Felly, mae rhywfaint o dystiolaeth/tystiolaeth dda o lwyddiant yn cynyddu sylfaen sgiliau rhanbarth y Cymoedd, ac mae'n debygol bod rhywfaint o'r dystiolaeth hon i'w phriodoli i'r rhaglenni adfywio. Mae llai o dystiolaeth o 'gau'r bwlch sgiliau' rhwng y cymoedd a gweddill Cymru.

## 1.2 Cryfhau'r sylfaen economaidd a chynyddu cysylltedd

*"... we have seen ... a lot of inward investment coming into not just Cardiff but on the M4 corridor generally in South Wales – American investment, Japanese, Korean… And that is in sharp contrast to what is happening in the valleys. The valleys have failed to attract either any substantial new investment into the area or actually succeeded in creating any indigenous growth."* Wayne David, former MEP for Cynon Valley, interviewed 1997 and quoted in the Adroddiad 2000 Sefydliad Joseph Rowntree, Coalfields Regeneration.

Mae llawer o feysydd glo ledled Prydain wedi'i chael yn anodd sicrhau mewnfuddsoddiad i hybu twf rhanbarthol. Mae sylfaen economaidd wan iawn y Cymoedd (gweler y ffigurau yn Atodiad 1) yn deillio o'r ffaith fod yr ardal yn dibynnu ar y diwydiant glo a'r diwydiant dur i raddau llawer mwy na'r meysydd glo eraill. Hefyd, mae'n deillio o faint yr ardal, ei diffyg cysylltedd â marchnadoedd, a'i lleoliad cymharol ar ymylon marchnad y DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r sylfaen wan yn broblem oherwydd y ddadl fod ardal sy'n methu gwerthu unrhyw nwyddau neu wasanaethau i ardaloedd eraill ond yn gallu cynnal cyfradd gyflogaeth o tua 50 y cant (yn y sector sy'n cludo nwyddau a gwasanaethau i'r ardal leol)[6]. Wrth reswm, nid yw'r ddadl hon yn berthnasol os oes llawer o bobl yn cymudo i'r gwaith ac yn dod â chyfoeth yn ôl i'r ardal.

Felly, er ei bod yn ymddangos mai parhau i geisio hybu mewnfuddsoddiad yw'r ateb amlwg i broblemau'r Cymoedd, ateb ategol neu amgen yw gweithio i ddatblygu cysylltedd a chymudo i ddinasoedd sydd â photensial economaidd cryfach. Byddai hyn yn cynnwys y llain arfordirol i'r de, gan gynnwys Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd, ac o bosibl Merthyr Tudful yn y gogledd, lle mae twf yn y boblogaeth ac adfywiad mewn cyflogaeth yn ddiweddar yn awgrymu bod cyfle posibl ar gael ar gyfer buddsoddiad cynaliadwy er mwyn creu canolfan â chrynswth economaidd critigol. Gall trigolion rhanbarth ehangach y Cymoedd fanteisio ar y canolfannau rhanbarthol wedyn, wrth iddynt ddatblygu'r màs critigol o gyfalaf dynol, ariannol a chymdeithasol i gefnogi gweithgarwch arloesi ac entrepreneuriaeth sy'n esblygu.[7]

Mae'r effaith gymudo yn bwysig iawn yn rhanbarth y Cymoedd, gan ei bod yn gwahaniaethu'n glir rhwng y cymoedd uchaf a'r cymoedd isaf. Mae gan y cymoedd isaf lefel uwch o gysylltedd â'u dinasoedd cyfagos (Caerdydd, Abertawe a Casnewydd) ac mae ganddynt sylfaen economaidd gryfach eisoes (gyda mwy o fusnesau'n cychwyn, a gweithgarwch arloesi). Mewn cyferbyniad, mae cyfraddau cymudo'r cymoedd uchaf yn is o lawer ac mae ganddynt lai o gysylltiad â'r dinasoedd mawr a marchnad ehangach y DU. Gall cysylltiadau trafnidiaeth gwell fod o gymorth i gymudwyr o'r Cymoedd uchaf tuag at yr arfordir, ond mae'r pellter a'r amseroedd teithio cysylltiedig yn debygol o fod yn rhwystr o hyd. Gallai rhagor o dwf ym Merthyr Tudful helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud eisoes dros y 50 mlynedd diwethaf (gan gynnwys cyflwyno rhai "rhaglenni adfywio"), gan gynnwys er enghraifft:

a) **Cynyddu cysylltedd,** gan gynnwys gwaith deuoli a gwella'r A470 rhwng Caerdydd ac Aberhonddu yn y 1970au, gwella rheilffordd y Cymoedd, a gwaith deuoli a gwella ffordd Blaenau'r Cymoedd. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cymudo i'r gwaith (**Atodiad 4**). Bu cynnydd mewn allgymudo (dod ag arian yn ôl i ardaloedd) a mewngymudo (dod â sgiliau a galw am wasanaethau i mewn, ond hefyd yn mynd ag arian sy'n cael ei ennill y tu allan i'r ardal). Fodd bynnag, bu cynnydd net clir mewn allgymudo ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf. Mae gwelliannau band eang wedi helpu i gynyddu cysylltedd hefyd.

b) **Cymhellion i hyrwyddo twf busnes.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi twf busnes drwy fentrau fel Ardaloedd Twf a Gynorthwyir ac Ardaloedd Menter (gan gynnwys Glyn Ebwy). Mae rhaglenni adfywio a ariennir gan Ewrop wedi gwneud cyfraniad hefyd. Un enghraifft o'r

---

[6] *Fothergill (2008) The Most Intractable Development Region in the UK yn Osmond (2008) Futures for the Heads of the Valleys, Sefydliad Materion Cymreig*.

[7] *OECD (2012) Cynhadledd: Innovation and Modernising the Rural Economy*

cannoedd o brosiectau a ariannwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yw prosiect ASTUTE (Uwch Dechnolegau Gweithgynhyrchu Cynaliadwy), sydd wedi rhagori ar bob disgwyliad. Llwyddodd i greu swyddi a denu mewnfuddsoddiad drwy alluogi'r diwydiannau awyrofod, modurol ac uwch dechnoleg i dyfu drwy fabwysiadu technolegau uwch ac, ar yr un pryd, lleihau'r effaith amgylcheddol.

c) **Adfywio canol trefi –** buddsoddiad sylweddol drwy gyllid craidd a chyllid Ewropeaidd i adfywio sawl canol tref yn y Cymoedd er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr a hyrwyddo twf busnes.

d) **Datblygu'r hyn sy'n cael ei gynnig i dwristiaid yn y Cymoedd Uchaf** er mwyn hybu'r sylfaen economaidd. Mae gwerthusiad Cam 1 o Barc Rhanbarthol y Cymoedd yn awgrymu ei fod yn creu tua £12.3m o werth ychwanegol gros bob blwyddyn drwy weithgareddau twristiaeth, ac yn cynnal 540 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol (*Future Option for the VRP* t.39), a bod dwy filiwn o ymweliadau ychwanegol wedi bod â'r Cymoedd ers 2009 oherwydd y buddsoddiadau ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd.

e) **Mentrau cymdeithasol –** Mae Adroddiad Joseph Rowntree (2000, t.22) yn dadlau bod methiant polisïau o'r brig i lawr ffurfiol i ddarparu cyflogaeth amgen ddigonol mewn hen feysydd glo yn creu cyfle i fentrau cymunedol wneud gwaith adfywio. Mae llawer o fentrau cymunedol wedi'u hariannu ers 2001 o dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a rhaglen Cronfa Cymdeithasol Ewrop yng Nghymru. Bydd angen gwneud rhagor o waith er mwyn archwilio faint o'r mentrau hyn sydd wedi cyfrannu at 'sylfaen economaidd' yr ardal.

Felly, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod cysylltedd wedi gwella, ond ceir tystiolaeth hefyd bod incwm aelwydydd yn y Cymoedd wedi lleihau o gymharu â gweddill Cymru (**Atodiad 5**). Er bod ffigurau Cyfanswm Gwerth Ychwanegol Gros yn dangos bod twf sylweddol wedi bod, mae'r twf wedi bod yn is na'r hyn a gafwyd yng Nghaerdydd neu'r DU yn ei chyfanrwydd, ac mae anghyfartaledd economaidd wedi cynyddu mewn gwirionedd.

Mae'n bosibl bod mentrau polisi, gan gynnwys mentrau sydd wedi cynyddu lefelau cymudo, wedi llwyddo i arafu'r anghyfartaledd economaidd cynyddol. Mae'n bosibl bod rhaglenni adfywio wedi gwneud cyfraniad, ond mae'r rhan fwyaf o unrhyw effaith gadarnhaol yn debygol o fod wedi deillio o raglenni ehangach a grym y farchnad.

> *By now many problems have retreated in scale from much of the Valleys to coalesce within the core Heads of the Valleys.* Sefydliad Materion Cymreig (2008) Futures for the Heads of the Valleys Tudalen 1

> *"*[In the Upper Valleys] *we have economically unviable communities in which poor people congregate. Unless we bring jobs and skills to such places we are merely keeping places going on a minimum care."* Sefydliad Materion Cymreig 2014

## 1.3 Lleihau rhwystrau iechyd i dwf

Ar un adeg, roedd cyfraddau hawlwyr Budd-dal Analluogrwydd pum awdurdod lleol Blaenau'r Cymoedd ymysg y chwech uchaf ledled Prydain (allan o gyfanswm o dros 400 o ranbarthau) (Futures of the Heads of the Valleys 2014). Mae'r "Ffenomen Budd-dal Analluogrwydd" hwn yn amlwg mewn cymunedau meysydd glo eraill hefyd, sydd bellach yn wynebu perygl o ddau

gyfeiriad, sef bod y genhedlaeth hŷn yn cael ei heffeithio gan eu hen waith a bod pobl iau yn cael eu heffeithio gan gyflogaeth wael a disgwyliadau isel (Bwrdd Adfywio'r Meysydd Glo, 2010).

Fodd bynnag, mae cyfradd trigolion oed gweithio rhanbarth y Cymoedd sy'n hawlio budd-dal analluogrwydd (neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, neu Lwfans Byw i'r Anabl, neu Lwfans Anabledd Difrifol) wedi lleihau dros amser, o 14% o oedolion oed gweithio ym 1999 i 10% yn 2015. Mae'n bosibl bod rhywfaint o'r newid hwn i'w briodoli i ddiwygiadau lles a'r ffaith fod meini prawf cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau wedi'u cryfhau. Mae Budd-dal Analluogrwydd, Cymhorthdal Incwm (sy'n cael ei hawlio oherwydd anabledd) a Lwfans Anabledd Difrifol wedi'u disodli â Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ac mae Lwfans Byw i'r Anabl yn cael ei ddisodli â Thaliad Annibyniaeth Personol. Mae gan y ddau fudd-dal newydd feini prawf asesu gwahanol sy'n cael effaith ar niferoedd llwyth achosion. Er enghraifft, penderfynodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ddisodli Lwfans Byw i'r Anabl â'r Taliad Annibyniaeth Personol er mwyn lleihau'r llwyth achosion 20%. Fodd bynnag, mae'r disgwyliad oes cyfartalog wedi cynyddu ar yr un pryd, tra bod cyfran y trigolion sy'n nodi bod eu hiechyd yn wael neu'n weddol wedi lleihau ychydig (**Atodiad B**).

Tra bod llawer o raglenni adfywio wedi llwyddo i ddarparu swyddi ar gyfer pobl (sy'n debygol o fod yn dda i'w hiechyd yn ôl y dystiolaeth), ychydig iawn o'r rhaglenni hyd yma sydd wedi canolbwyntio ar weithgareddau iechyd yn benodol. Bu rhai eithriadau i hyn, gan gynnwys Parc Rhanbarthol y Cymoedd, sydd wedi ceisio annog pobl i fod yn fwy egnïol. Hefyd, mae sawl prosiect yn y Cymoedd wedi darparu cymorth cyflogaeth personol, dwys. Mae rhaglenni fel cynllun Braenaru'r Adran Gwaith a Phensiynau, Genesis Cymru 2, y rhaglen Awyddus i Weithio, a rhaglenni Cymunedau am Waith a'r Gwasanaeth Di-waith wedi'u bwriadu ar gyfer y rhai sy'n economaidd anweithgar am resymau iechyd.

Felly, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod mynd i'r afael â'r 'Ffenomen Budd-dal Analluogrwydd' yn rhanbarth y Cymoedd, a lleihau'r anghyfartaledd iechyd rhwng yr ardal a gweddill Cymru, wedi cael rhywfaint o effaith, ond mae angen rhagor o dystiolaeth i gadarnhau hyn. Er ei bod yn bosibl bod rhywfaint o'r newid hwn wedi'i sicrhau drwy raglenni adfywio, mae'n debygol bod y rhan fwyaf o'r newid wedi deillio o ddarpariaeth graidd gwasanaethau (datganoledig a heb eu datganoli) a ffactorau eraill.

## 1.4 Gwella'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig

> "*Low levels of personal mobility combined with a relatively high percentage of home ownership (redundant miners often spent a large part of their 'redundancy money' paying off their mortgages), locks people into these localities. Their subsequent low incomes combine with the ongoing effects of the mining legacy to exert a downward pressure on the local environment and on the condition of the housing stock. Such environmental degradation and resulting downward pressure on rental values and rates of return deter speculative private sector developers from investing in such places*" Adfywio'r Meysydd Glo, Joseph Rowntree 2000, tudalen 18.

Dros yr 50 mlynedd ddiwethaf o raglenni adfywio, ac o'r cychwyn cyntaf, mae'r rhan fwyaf o ymdrechion wedi canolbwyntio ar wella'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig. Mae'r prif raglenni yn cynnwys:

a) **Adfer tir** – rhwng y 1960au a'r 1980au yn benodol, sydd wedi cael effaith ddiymwad ar yr amgylchedd.

b) **Adfywio canol trefi** – gan gynnwys gwaith ledled rhanbarth y Cymoedd rhwng 2006 a 2014 yn Ardaloedd Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd a'r Cymoedd Gorllewinol; a gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd mewn saith ardal adfywio o dan y cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (Pen-y-bont ar Ogwr; Merthyr Tudful; Castell-nedd Port Talbot; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Abertawe; Torfaen).

c) **Rhaglen Arbed** - (£113m ledled Cymru) sy'n gweithio gyda darparwyr tai cymdeithasol i wella effeithlonrwydd ynni tai, ac yn gweithio i hyrwyddo economïau lleol drwy ddefnyddio busnesau lleol i gynhyrchu, cyflenwi a gosod cynifer o'r mesurau â phosibl, a darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer gweithwyr lleol.

d) **Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)** – sy'n buddsoddi swm enfawr o £4 biliwn ledled Cymru i sicrhau bod tai cymdeithasol yn bodloni'r safon ofynnol, a £4 biliwn arall i gynnal y safon hon. Hefyd, mae modd defnyddio SATC i ddarparu hyfforddiant a chyflogaeth, cynyddu lefelau cyfranogiad cymunedol, perchnogaeth a rheolaeth tai, cyflogaeth leol gynaliadwy, a phrosesau cydgysylltu a chydweithio ledled y rhanbarth rhwng sefydliadau perthnasol.

**e)** Rhaglen **Parc Rhanbarthol y Cymoedd** – a oedd yn cynnwys 39 o brosiectau seilwaith a thirwedd. Llwyddodd y rhaglen hon i roi nifer o fentrau ar waith i leihau lefelau sbwriel a thipio anghyfreithlon, hyfforddi 'hyrwyddwyr twristiaeth gymunedol' a chreu 151 km o fynediad wedi'i reoli i gefn gwlad.

Mae rhaglenni adfywio wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella'r amgylchedd naturiol, ac maent yn parhau i wneud cynnydd ar wella'r amgylchedd adeiledig. Fodd bynnag, yn anffodus, ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â'r effaith ar economi'r rhanbarth neu ar ddangosyddion adfywio eraill.

# 2. Beth sydd wedi llwyddo mewn ardaloedd eraill?

## 2.1 Meysydd glo eraill

Mae llawer o'r hen feysydd glo yn ardaloedd difreintiedig, ond mae pum maes glo llai o ran maint – De Swydd Stafford, Gogledd Swydd Warwick, De Swydd Derby/Gogledd-orllewin Swydd Gaerlŷr, Caint a Lothian - yn ymddangos yn llai difreintiedig na'r gweddill erbyn hyn. Yn y meysydd glo hyn, roedd y cynnydd mewn swyddi mewn sectorau eraill o'r economi leol erbyn 2008 yn ddigon i wneud iawn am yr holl swyddi a gollwyd yn y diwydiant glo ers 1981. Un rheswm posibl am hyn yw'r ffaith fod graddfa absoliwt y colledion swyddi yn llai na mewn ardaloedd eraill, a'r ffaith fod gan y meysydd glo hyn gysylltiadau gwell â'u dinasoedd cyfagos, sy'n golygu bod trigolion ym mhob un o'r ardaloedd hyn wedi gallu manteisio ar swyddi a thwf mewn ardaloedd cyfagos[8].

Mewn cyferbyniad, ym maes glo'r De dim ond hanner y swyddi glo a oedd wedi'u disodli â swyddi newydd erbyn 2008. Un rheswm am hyn yw'r ffaith fod yr ardal yn fwy dibynnol ar y diwydiant glo yn y lle cyntaf, a rheswm arall yw'r ffaith mai hwn yw'r unig faes glo mynyddig ym Mhrydain, a'i fod yn faes glo llawer mwy o ran maint ond yn llai cysylltiedig.

---

[8] *Foden et al. (2014) State of the CoalfieldsRreport, Prifysgol Sheffield Hallam*

## 2.2 Ardaloedd difreintiedig eraill yn Ewrop

Yn 2012, aeth y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ati i astudio 23 o ranbarthau Ewrop er mwyn archwilio a deall y ffactorau sy'n sylfaen i dwf[9]. Daeth i'r casgliadau canlynol:

- Mae llunwyr polisi yn iawn i ganolbwyntio ar berfformiad canolfannau rhanbarthol mawr. Y canolfannau hyn yw prif ysgogwyr twf.
- Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o dwf agregedig yn digwydd y tu allan i'r canolfannau hyn, mewn ardaloedd tlotach, llai datblygedig neu mewn ardaloedd gwledig. Pan fydd mwy o dwf y tu allan i'r ganolfan, ceir rhagor o dwf yn gyffredinol, rhagor o degwch, a llai o broblemau cymdeithasol.
- Mae gan ranbarthau llai datblygedig â lefel twf sy'n fwy na'r lefel gyfartalog fwy o **gyfalaf dynol** lle mae gan gyfran fach o'r gweithlu sgiliau isel iawn.
- Hefyd, mae gan ranbarthau llai datblygedig â lefel twf sy'n fwy na'r lefel gyfartalog **ddwysedd seilwaith** uwch o lawer.

Wrth grynhoi, mae'r OECD yn dod i'r casgliad y gall rhanbarth uwch roi blaenoriaeth i gymorth ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu a gwaith arloesi, ac y gall rhanbarth llai datblygedig ganolbwyntio ar amsugno yn hytrach na datblygu technoleg newydd yn y lle cyntaf, gan leihau cyfran y gweithlu sydd â sgiliau isel iawn a gwella'r amgylchedd busnes. Fodd bynnag, mae'r OECD yn rhybuddio mai anaml iawn y bydd rhanbarthau yn gallu efelychu llwyddiant rhanbarthau eraill neu ddilyn fformiwla sydd wedi'i diffinio ymlaen llaw: "*Ultimately there is no substitute for self-discovery".*

Mae'n bwysig ystyried sut mae rhanbarthau eraill wedi cyflwyno'r agenda adfywio. Mae Adolygiadau o Adfywio Rhanbarthol OECD wedi cynnwys adolygiad yn canolbwyntio ar Wlad y Basg. Yn ôl yr OECD (2011): *"The Basque Country is world renowned for a successful industrial transformation, the urban regeneration of Bilbao, cultural distinctiveness, unique governance arrangements and high wealth levels. Over the last 30 years, the region has implemented its science, technology and innovation (STI) policy driven by a need to boost industrial competitiveness. The role of total factor productivity and innovation in driving growth was significant in the 1990s and declined in the early part of this decade, but appears to be on the rise again thanks in part to significant increases in public and private investment in innovation. The Basque Country has begun a transition from a model of incremental innovation in manufacturing to a model increasingly based on science and other forms of knowledge."*[10]

## 2.3 Parciau Rhanbarthol

Deilliodd Parc Rhanbarthol y Cymoedd o'r Fenter Cymoedd Gwyrdd a oedd yn seiliedig ar y cysyniad o fuddsoddi mewn adnoddau naturiol a diwylliannol yn y rhanbarth i hyrwyddo adfywiad economaidd-gymdeithasol. Mae pwyslais mawr yn cael ei roi ar sefydliadau statudol yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau newidiadau ym maes rheoli adnoddau naturiol, hybu twristiaeth, a hyrwyddo ffordd o fyw egnïol.

Mae parc rhanbarthol yn ardal ddaearyddol unigryw sydd â nodweddion naturiol, treftadaeth neu hamdden. Yn wahanol i barc cenedlaethol, nid oes gan barc rhanbarthol warchodaeth statudol, ac

---

[9] *OECD (2012) Promoting Growth in All Regions. Lessons from across the OECD*
[10] OECD Reviews of Regional Innovation: Basque Country, Spain 2011

mae datblygiadau yn amodol ar weithdrefnau cynllunio arferol. Mae sawl Parc Rhanbarthol yn Ewrop, ond y parc sy'n ymddangos yn debyg iawn i ranbarth y Cymoedd yw'r Emscher Landshaftspark (Parc Tirwedd) yn ardal y Ruhr yn yr Almaen. Fe'i sefydlwyd ym 1989, ac mae'n cydgysylltu gweithgareddau adfywio llawer o bartneriaid. Byddai angen gwneud rhagor o waith i ganfod (a chyfieithu) unrhyw werthusiadau sydd wedi'u cwblhau.

## 2.4 Dinas-ranbarthau

Mae dinas-ranbarth yn "rhwydwaith o gymunedau trefol, wedi eu cysylltu ag ardal o'u cwmpas gan gysylltiadau economaidd a chymdeithasol swyddogaethol". Y prif ysgogwyr sy'n sylfaen i ddinas-ranbarthau yw:

- Gwella'r system gynllunio;
- Gwella cysylltedd;
- Hybu buddsoddiad.

Rhai enghreifftiau o ddinas-ranbarthau yn y DU yw Leeds, Manceinion a Lerpwl. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dinas-Ranbarthau (2011-2012) er mwyn ceisio canfod a fyddai dull gweithredu ar sail dinas-ranbarthau yn debygol o greu rhagor o swyddi a ffyniant yng Nghymru ac ar gyfer Cymru na dulliau gweithredu presennol ym maes datblygiad economaidd. Mae hyn wedi arwain at sefydlu ardal Bae Abertawe (2013) a 'Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd' (2014). Mae partneriaeth 'Great Western Cities' wedi'i sefydlu rhwng Caerdydd, Casnewydd a Bryste hefyd.

Yn ei adroddiad terfynol, nododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dinas-Ranbarthau fod sylfaen dystiolaeth ryngwladol yn dod i'r amlwg sy'n dangos y gall canolbwyntio ar ddinasoedd maint canolig a'r ardal o'u cwmpas fod yn well ar gyfer tegwch, twf ac effeithlonrwydd na'r strategaeth ar gyfer twf dros y degawdau diwethaf sydd wedi canolbwyntio ar brifddinasoedd masnach.

Mae gwaith ymchwil Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus (IPPR) y Gogledd ar Bwerdy Gogledd Lloegr wedi dangos dylanwad trefi a dinasoedd maint bach a chanolig ar gynyddu'r economi ranbarthol. Mae'n dadlau bod yna gyfyngiadau i grynoadau a bod perygl mawr y bydd canolbwyntio ar ddatblygu canol y ddinas yn anwybyddu'r rhyngddibyniaeth sy'n bodoli rhwng dinasoedd a'r trefi llai a'r ardaloedd gwledig ymhellach i ffwrdd. Ym Mhwerdy Gogledd Lloegr, mae IPPR y Gogledd wedi dangos mai Warrington a Cumbria yw'r ardaloedd sy'n tyfu'n gyflymach, ac nid Manceinion Fwyaf, Lerpwl neu Leeds. Mae'r argymhellion yn nodi bod angen ystyried datblygu strategaeth economi ranbarthol fwy ystyrlon a chynhwysfawr, sy'n manteisio ar gryfderau trefi a dinasoedd bach a chanolig. Gall yr effaith hon ar economïau y tu allan i ganolfannau dinasoedd fod yn berthnasol iawn i ddaearyddiaeth a ffocws y gwaith ledled y cymoedd.

## 2.5 Modelau eraill

Mae dulliau eraill o adfywio ardaloedd yn werth eu hystyried hefyd. Mae rhai ardaloedd wedi penodi maer i weithio ar draws sawl Cyngor er mwyn arwain ymdrechion adfywio. Un enghraifft yw Llundain, lle mae'r maer yn arwain Cynulliad Llundain ac yn gweithio ar draws Cynghorau Bwrdeistref Llundain i roi dull gweithredu mwy strategol ar waith ym maes adfywio, gan fanteisio ar arian adfywio sylweddol. Mae Maer Manceinion Fwyaf yn enghraifft arall.

Ar ôl 2017, disgwylir y bydd maer yn cael ei ethol yn uniongyrchol yn Rhanbarth Dinas Lerpwl, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Rhanbarth Dinas Sheffield, Tees Valley, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd Canolbarth Lloegr fel rhan o'r bargeinion datganoli o dan Ddeddf Datganoli Dinasoedd a Llywodraeth Leol 2016.

Model arall yw'r dull gweithredu Corfforaeth Adfywio sydd wedi'i roi ar waith yn Ardal Dociau Llundain, Casnewydd (Cwmni Adfywio Casnewydd), Manceinion, Birmingham a Bae Caerdydd. Mae pwerau sylweddol Awdurdodau Lleol yn cael eu trosglwyddo i'r corfforaethau hyn, sy'n derbyn cyllid arwyddocaol gan y Llywodraeth Ganolog. Byddai diffyg atebolrwydd democrataidd yn ystyriaeth yn y cyswllt hwn, yn ogystal â'r ffaith fod y rhan fwyaf o enghreifftiau o Gorfforaethau Adfywio yn perthyn i ardaloedd trefol iawn.

# 3. Y Gwersi a Ddysgwyd: Arferion gorau ym maes prosiectau adfywio

*Mae'r adran hon yn ystyried arferion gorau ym maes prosiectau adfywio ar sail 'gwersi a ddysgwyd' ac argymhellion gan rai o'r prif raglenni adfywio seiliedig ar leoedd yn rhanbarth y Cymoedd (gweler y rhestr yn Atodiad 2).*

## 3.1 Arferion da wrth weithio mewn partneriaeth

*"There has been a myriad of individual regeneration initiatives, but these have frequently not been joined up. Certainly, there is a lack of appreciation of the importance of recognising the required integration of strategies, policies, programmes and projects via hierarchical/ vertical and horizontal connections"* Canolfan Rhagoriaeth Adfywio (2011) Llinell Amser Ddadansoddol ar gyfer Panel Adfywio Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru

- **Neilltuo llawer o amser ac ymdrech i ddatblygu gwaith mewn partneriaeth a gwaith integredig ar draws sefydliadau:** Mae llawer o adroddiadau gwerthuso yn pwysleisio manteision a phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ar draws meysydd darpariaeth. Er enghraifft, yn ôl partneriaid prosiect Braenaru Strategaeth Dinasoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n mynd i'r afael â diweithdra, roeddent wedi elwa ar ddeall amcanion, safbwyntiau ac uchelgeisiau'r partneriaid ym meysydd polisi eraill, fel sgiliau, iechyd, tai a chludiant. Hefyd, roeddent wedi elwa ar y gwaith cydgysylltiedig a ddeilliodd o hynny. Cynhaliwyd astudiaeth ar raddfa fwy i werthuso Parc Rhanbarthol y Cymoedd ac opsiynau yn y dyfodol, a phwysleisiodd yr astudiaeth hon fod gwaith partneriaeth rhwng 40 a mwy o sefydliadau yn ganolog i lwyddiant y prosiect. Roedd y sefydliadau hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol, sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat. Nododd adroddiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd fod Torfaen yn cydweithio'n arbennig o dda ag eraill. Yn yr un modd, mae'r gwaith partneriaeth a phlygu rhaglenni yn ganolig i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf sy'n cael ei rhoi ar waith gan bartneriaid lluosog ym mhob un o'r 53 ardal clwstwr.

  Mae cydweithio rhwng partneriaid yn digwydd yn aml mewn tirwedd gymhleth lle mae diffyg cydgysylltu o ran darparu a chynllunio gwasanaethau, a mannau cyswllt sy'n peri dryswch i drigolion (er enghraifft, ar gyfer cymorth cyflogadwyedd) (Cynlluniau Braenaru Strategaeth Dinasoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau). Fodd bynnag, mae gweithio mewn partneriaeth yn

gallu helpu i symleiddio'r dirwedd hon, ar gyfer partneriaid darpariaeth a'u cleientiaid. Yn aml, mae anawsterau'n deillio o weithio ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol ac ati o safbwynt ffocws ac ymrwymiad. Gall hyn arwain at gyfle i gydweithio hefyd (Astudiaeth o Opsiynau'r Dyfodol ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd).

Nododd yr adroddiad ar opsiynau'r dyfodol ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd fod angen gwerthfawrogi'r her sylweddol o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth (er bod awydd ac angen gwneud hynny), a bod strwythur llywodraethu cryf, tryloyw yn hanfodol i gynorthwyo a galluogi hynny. Ar ôl archwilio trefniadau llywodraethu mentrau tebyg ledled y DU, ac asesu'r opsiynau, roedd llunwyr yr adroddiad wedi argymell y dylai Parc Rhanbarthol y Cymoedd fod yn seiliedig yn y dyfodol ar gytundeb cryf sy'n rhwymo partneriaid o dan oruchwyliaeth bwrdd partneriaeth gweithredol sydd â chysylltiadau clir â Byrddau Gwasanaethau Lleol, sectorau a thimau cynllunio tai cymdeithasol, a'r Byrddau Dinas-Ranbarthau.

- **Rheoli disgwyliadau o'r cychwyn cyntaf**, yn enwedig o safbwynt graddau ymreolaeth a chwmpas unrhyw fesurau galluogi; (Cynlluniau Braenaru Strategaeth Dinasoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau, adroddiad terfynol Ardal Adfywio Strategol y Cymoedd Gorllewinol)

- **Mae'r trydydd sector yn gwneud cyfraniad hanfodol yn aml, yn enwedig wrth ymgysylltu â chymunedau lleol**. Yn Ardal Adfywio Strategol y Cymoedd Gorllewinol, roedd cyfraniad y trydydd sector yn allweddol i ymgysylltu lleol (adroddiad terfynol Ardal Adfywio Strategol y Cymoedd Gorllewinol). Fodd bynnag, mae adolygwyr yn nodi nad yw cyfranogiad cymunedol yn broses hawdd o gwbl. Er bod mentrau yn honni eu bod yn cael eu rheoli a'u harwain gan y gymuned, nid yw hyn yn wir bob amser. Yn ogystal, mae'r cysyniad o 'reolaeth gymunedol' yn amwys iawn – pwy mewn 'cymuned' sy'n rheoli beth, ac i bwy?

- **Mae canfod ffordd o weithio'n effeithiol gyda chyflogwyr yn gallu bod yn hanfodol** ond yn anodd. Yn ôl Cynllun Braenaru Strategaeth Dinasoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau i fynd i'r afael â bod heb waith, roedd sicrhau bod cyflogwyr yn cyfrannu at y prosiect yn gymorth i ganolbwyntio mwy ar anghenion cyflogwyr a materion yn ymwneud â llafur yn fwy cyffredinol. Pwysleisiodd y gwerthusiad bwysigrwydd ystyried rôl galw yn ogystal â chyflenwad wrth fynd i'r afael â bod heb waith.

- **Cynllunio'n ofalus sut i weithio yn effeithiol mewn partneriaeth â'r sector iechyd.** Mae gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau iechyd yn anos na gweithio gydag asiantaethau statudol eraill fel cymdeithasau tai, awdurdodau addysg ac awdurdodau lleol (gwerthusiad o'r broses Cymunedau yn Gyntaf 2015). Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn gweithio i ddatblygu seminarau iechyd fel bod Cymunedau yn Gyntaf yn gallu meithrin y cysylltiadau hyn (er bod y gwaith hwn yn cael ei wneud gyda sefydliadau iechyd trydydd sector, yn hytrach na'r GIG na Fyrddau Iechyd Lleol).

## 3.2 Arferion da sy'n gwella darpariaeth leol

- **Sicrhau bod gennych chi gydbwysedd cywir rhwng cynllun a chyfeiriad rhaglen genedlaethol gadarn, a hyblygrwydd lleol i roi'r rhaglen ar waith:** Wrth ddefnyddio darpariaeth leol (o'r gwaelod i fyny) mae'n bwysig cynllunio rhaglen genedlaethol gyffredinol glir er mwyn sicrhau bod gan ddarpariaeth ar lawr gwlad raddfa uchel o ddibynadwyaeth wrth gyflawni'r amcanion (gwerthusiad o'r broses Cymunedau yn Gyntaf 2015; astudiaeth o opsiynau'r dyfodol ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd). Yn ôl un o argymhellion y Pwyllgor

Cyfrifon Cyhoeddus ar gyfer Cam 1 o Cymunedau yn Gyntaf (adroddiad 2010 y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus) roedd angen rhagor o gyfeiriad ac arweiniad o'r brig i lawr ar gyfer awdurdodau lleol a darparwyr eraill er mwyn hwyluso adfywio o'r gwaelod i fyny. Roedd yr adroddiad yn dadlau bod Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gallu gwneud cyfraniad allweddol.

Mae arferion da ar gyfer creu fframwaith cyffredinol cryf yn esblygu o dan Gymunedau yn Gyntaf (Fframwaith Canlyniadau) ac maent wedi'u cynnwys mewn opsiynau'r dyfodol ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd (Astudiaeth o Opsiynau'r Dyfodol) sydd hyd yn oed yn awgrymu y dylai partneriaid lofnodi cytundebau partneriaeth sy'n rhwymo.

Fodd bynnag, anfantais dull gweithredu o'r brig i lawr yw'r posibilrwydd y bydd yn anos sicrhau ymgysylltiad gwirioneddol â phartneriaid darpariaeth leol wrth gynllunio darpariaeth leol. Gall gormod o 'orchymyn a rheoli' arwain at fethiant llwyr i gysylltu â phobl y mae'r rhaglen yn ceisio eu helpu. Mae angen datblygu rhyw fath o arweiniad gwasgaredig lle mae pŵer yn cael ei rannu â phobl nad oes ganddynt bŵer ar hyn o bryd yn hytrach na cheisio datrys problemau (IWA 2010). Dylid cynnwys hyblygrwydd digonol fel bod gan bartneriaid rywfaint o bŵer a pherchnogaeth i gynllunio a darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n diwallu anghenion ac yn ymateb i gyfleoedd lleol.

- **Ymrwymo i ddarparu adnoddau ar ddechrau'r prosiect er mwyn datblygu capasiti cymunedol**. Nid yw'n hawdd cael gafael ar gynigion prosiect o ansawdd uchel gan y gymuned leol. Mae angen amser i sefydlu partneriaethau, datblygu ymddiriedaeth, creu ymdeimlad o bwrpas a datblygu capasiti grwpiau lleol cyn y gallant gael mynediad i gyllid grant. Mae angen adnoddau staff cymharol ddwys yn y dechrau ar gyfer hyn. Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi'i nodi yn enghraifft dda o wella capasiti lleol i gael gafael ar gyllid, ond mae gan awdurdodau lleol brofiad yn y maes hwn hefyd drwy'r Grant Cyfleusterau Cymunedol (*Adroddiad 2010 y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Cymunedau yn Gyntaf*, *Gwerthusiad o'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol, Adroddiad Terfynol ar Ardal Adfywio Strategol y Barri).*

  Hefyd, mae angen sicrhau bod y rhai sy'n gwneud cynnig yn deall nodau ac amcanion y rhaglen gyfan (Astudiaeth o Opsiynau'r Dyfodol ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd a gwerthusiad interim o Cymunedau yn Gyntaf). Yn aml, mae noddwyr prosiectau yn cyflwyno ceisiadau ar gyfer prosiectau ar sail blaenoriaethau daearyddol diffiniedig yn hytrach na cheisio datblygu mentrau mwy strategol, cyfunol. Nid yw rhai o'r prosiectau a ariennir yn ddigon mawr nac uchelgeisiol chwaith, neu mae'n bosibl y bydd adnoddau a chyllid yn cael eu dyrannu ar sail wleidyddol i ryw raddau yn hytrach na chanolbwyntio ar gyfleoedd a fyddai'n cyflawni'r amcanion dymunol yn fwy effeithiol.

- **Sefydlu tîm cryf ar gyfer y rhaglen ganolog a darparu digon o adnoddau ar ei gyfer:** Mae datblygu tîm cryf canolog dynodedig ar gyfer y rhaglen yn bwysig iawn er mwyn hwyluso gwaith partneriaeth, sicrhau cyllid ychwanegol a chydgysylltu'r gweithgarwch cyfrifyddu a monitro. Hefyd, bydd y tîm yn cyfathrebu'n effeithiol â fforymau neu fyrddau lleol, yn darparu'r strwythurau llywodraethu priodol iddynt sy'n nodi graddfa eu hymreolaeth e.e. ar gyfer penderfyniadau cyllidebol hyblyg, egluro eu rolau allweddol, a meithrin a chefnogi adfywio o'r gwaelod i fyny yn fwy cyffredinol (gwerthusiad o'r broses Cymunedau yn Gyntaf 2015).

- Gall **cyllid dewisol** wneud cyfraniad pwysig at helpu partneriaethau i ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol, yn enwedig ar gyfer prosiectau sy'n mynd i'r afael â bod heb waith (Cynlluniau Braenaru Strategaeth Dinasoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau).

- **Mae setiau sgiliau ar lefel darpariaeth leol / penderfyniadau yn hanfodol** er mwyn datblygu cynlluniau da, hwyluso'r broses o blygu rhaglenni, a monitro cynnydd ac effeithiau. Mae dull Llywodraeth Cymru a phartneriaid darpariaeth fel CGGC o **ddarparu hyfforddiant** wedi bod yn fanteisiol i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (gwerthusiad o'r broses Cymunedau yn Gyntaf 2015). Mae'r model hwn yn cynnwys cyfuniad o gymorth rhaeadrol drwy weithdai yn ogystal â sesiynau un i un ac ymgynghoriadau dilynol.

## 3.3 Arferion da ar gyfer cynyddu maint ac effaith rhaglenni

- **Cadw cysylltiadau cryf rhwng amgylchedd y polisi a'r rhaglen** (*Gwerthusiad o Gynlluniau Braenaru Strategaeth Dinasoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'r Adroddiad Terfynol ar Ardal Adfywio Strategol y Barri*). Gall y llywodraeth ganolog wneud cyfraniad defnyddiol drwy gymryd rhan mewn trafodaethau cyson a darparu arweiniad ar faterion allweddol a chymhleth sy'n bwysig ar gyfer gwella gwaith partneriaeth (*Cynlluniau Braenaru Strategaeth Dinasoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau; argymhellion Adroddiad Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru*). Pwysleisiodd yr Astudiaeth o Opsiynau'r Dyfodol ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd bwysigrwydd cynnal cysylltiad cadarn â Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod cysylltiadau polisi yn cael eu cynnal gydol cwrs y rhaglen. Roedd yr adroddiad yn dadlau bod angen cyfuno [Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn y dyfodol] â datblygiad y Metro a chyfleoedd defnydd tir cysylltiedig ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, a chefnogi gwaith adfywio trefol a thai, fel yr hyn a gynigir yn strategaeth Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

- **Hyrwyddo plygu rhaglenni drwy roi arwyddion clir i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus.** Mae plygu rhaglenni yn sicrhau bod modd defnyddio arian a chymorth gan raglenni a gwasanaethau cyhoeddus gwahanol (sy'n cael eu darparu gan gyrff statudol eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ei hun), ar gyfer y prosiect adfywio. Nid oedd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn credu bod hyn yn digwydd ddigon yng Ngham 1 o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (Adroddiad 2010 y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf). Roedd hyn yn lleihau effaith y rhaglen ac yn golygu nad oedd gan gymunedau / fforymau darpariaeth leol unrhyw ddylanwad ar ddarparu gwasanaethau a rhaglenni eraill yn eu hardal. Argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylai Llywodraeth Cymru gryfhau ei dull gweithredu er mwyn hyrwyddo gweithgarwch o'r fath. Mae gan y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf arferion da yn y cyswllt hwn bellach, er enghraifft drwy arian cyfatebol y Grant Amddifadedd Disgyblion - Cymunedau yn Gyntaf. Hefyd, awgrymodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylai rhaglenni leihau cyllid i awdurdodau lleol os na allant ddangos eu bod wedi plygu eu rhaglenni eu hunain i'r rhaglen adfywio yn eu hardal.

  Fodd bynnag, rhaid nodi rhybudd CLILC y gallai gormod o bwyslais ar blygu rhaglenni arwain at y prosiect adfywio ei hun yn canolbwyntio'n ormodol ar faterion mewnol (Adroddiad 2010 y Pwyllgor Cyfrifol Cyhoeddus ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf).

- **Ceisio sicrhau portffolio ariannu cymysg:** Argymhellodd yr Astudiaeth o Opsiynau'r Dyfodol ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd y dylai prosiectau adfywio geisio sicrhau portffolio ariannu cymysg, gan gynnwys, er enghraifft, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Cynllun Datblygu Gwledig. Hefyd, mae dewisiadau ariannu ychwanegol ar gael gan yr UE, gan gynnwys rhaglenni INTERREG, LIFE, Horizon 2020 ac ERASMUS+, yn ogystal â llwybrau ariannu domestig eraill Cymru a'r DU, fel Partneriaeth Tirwedd Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa Natur Llywodraeth Cymru, buddsoddiad gan y

sector preifat, cyfleoedd ariannu cydweithredol posibl â'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol, refeniw posibl o ardrethi busnes yn deillio o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy, a chyllido torfol. Gellid ariannu mentrau drwy fuddsoddiadau ad-daladwy 'drysau troi'. Mae gan brosiectau adfywio ffisegol brofiad helaeth o ddenu buddsoddiad o'r sector preifat.

## 3.4 Arferion da ar gyfer prosiectau adfywio canol trefi a gwella tai

- **Mabwysiadu agwedd realistig at y tebygolrwydd o fuddsoddi.** Mae buddsoddiad manwerthu masnachol yn canolbwyntio fwyfwy ar brif drefi / trefi is-ranbarthol, ac mae dyfodol canolfannau ardaloedd traddodiadol yn edrych yn ansicr. Wrth lunio gweledigaeth ar gyfer canol trefi, mae'n rhaid i bartneriaid fod ag agwedd realistig at ddatblygiad a buddsoddiad masnachol **(**Miller 2012).

- **Pan fydd prosiectau gwella ffisegol yn cael eu cynllunio'n ofalus, gallant helpu i ddatblygu cadwyni cyflenwi a sgiliau a chyflogaeth lleol.** Mae Rhaglen Arbed yn enghraifft o ymarfer da, ac mae'n defnyddio busnesau lleol i gynhyrchu, cyflenwi a gosod cynifer o'r mesurau effeithlonrwydd ynni â phosibl, ac yn darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer gweithwyr lleol.

- **Mae angen i brosiectau adfywio ffisegol gael eu hategu gan waith marchnata a chodi ymwybyddiaeth** er mwyn hysbysebu llwyddiant a hybu twristiaeth (*Adroddiad Terfynol ar Ardal Adfywio Strategol y Barri; gwerthusiad Miller 2012 o Adfywio Canol Trefi, gwerthusiad o Barc Rhanbarthol y Cymoedd).*

- **Treulio mwy o amser ar y gwaith paratoi** cyn datblygu gweledigaeth, strategaeth a chynllun gweithredu a rennir ar gyfer tref sy'n gwerthfawrogi'r berthynas rhwng tref a'i chymdogion, ac yn cofnodi 'trywydd tref' ymarferol (gan gynnwys cynlluniau buddsoddi ymarferol) i fynd â'r dref y tu hwnt i'w 'phenllanw' (Miller 2012 – gwerthusiad o Adfywio Canol Trefi[11]).

- **Ehangu prosiectau adfywio canol trefi** i gynnwys dulliau gweithredu ehangach fel cymorth menter, datblygu sgiliau neu ddulliau datblygu capasiti eraill yn y gymuned busnes (adroddiad Miller 2012). Casglu data sylfaenol a data monitro mwy cyfoethog a mwy holistaidd sy'n cynnwys dangosyddion cymunedol, diwylliannol, menter a llesiant, yn ogystal â nifer yr ymwelwyr a swyddi gwag. Fodd bynnag, y prosiectau adfywio ffisegol yw'r rhai mwyaf gweladwy, amlwg ac uchel eu parch ymysyg rhanddeiliaid fel arfer.

- **Gweithio gyda phrosiectau adfywio canol trefi eraill** a phartneriaid allweddol eraill mewn rhanbarth er mwyn datblygu fframweithiau adfywio ledled yr ardal sy'n cydgysylltu â gwaith adfywio canol y dref. Gweithio fel partner gweithredol mewn prosiectau canol tref eraill er mwyn rhannu arferion da a chyngor arbenigol (fel caffael tir) a datblygu fframwaith monitro cyson fel bod modd cymharu trefi (adroddiad Miller 2012).

- **Gweithredu mewn ffordd greadigol er mwyn canfod defnyddiau newydd, trosiannol a hyfyw ar gyfer adeiladau gwag** drwy gymhwyso ardrethi busnes mewn ffordd hyblyg a sicrhau defnyddiau trosiannol ar gyfer siopau gwag (adroddiad Miller 2012).

---

[11] Miller (2012) *Evaluation of Current Practice in Relation to Town Centre Regeneration*

## 3.5 Arferion da ar gyfer prosesau rhaglenni

- **Cynllunio'r fframwaith monitro yn ofalus.** Mae'n anodd llunio fframweithiau monitro yn llwyddiannus a bodloni gofynion partneriaid darpariaeth leol. Beirniadwyd Cam 1 o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am beidio â chynnwys gofynion monitro allbynnau a chanlyniadau digon cadarn ar gyfer y prosiectau, gan arwain at y rhaglen yn methu dangos gwerth am arian. Ers hynny, mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi datblygu dull cyson o fonitro gweithgareddau ac effaith y rhaglen, yn seiliedig ar fethodoleg Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Serch hynny, mae gan y dull hwn ei gryfderau a'i wendidau. Mae'n rhy hawdd i ofynion monitro fynd yn rhy feichus i brosiectau bach (mae gofynion ar gyfer sicrhau Cyllid Ewropeaidd yn benodol yn feichus iawn). Mae'n bwysig datblygu tîm cryf ar gyfer y rhaglen ganolog er mwyn helpu prosiectau i fodloni'r gofynion.

  Hefyd, gall fframweithiau monitro lurgunio darpariaeth yn anfwriadol. Er enghraifft, gallant wthio timau darpariaeth i ganolbwyntio ar dargedau hawdd er mwyn sicrhau'r statws Gwyrdd ar ddangosfwrdd Coch/Melyn/Gwyrdd, yn hytrach na chanolbwyntio ar darged pwysig sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl (Gwerthusiad o'r Broses Cymunedau yn Gyntaf 2015).

- **Sicrhau eich bod yn sefydlu llinell sylfaen gychwynnol** i'w defnyddio i fonitro cynnydd a mesur effaith yr hyn sy'n bwysig (adroddiad terfynol ar Ardal Adfywio Strategol y Cymoedd Gorllewinol). Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi amlygu arferion da wrth ddarparu gwybodaeth sylfaenol ar gyfer clystyrau. Dylid cynllunio ar gyfer Gwerth am Arian ac asesiadau o Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ymlaen llaw.

- **Mae angen sicrhau bod y broses o gymeradwyo prosiectau yn glir** (adroddiad terfynol ar Ardal Adfywio Strategol y Cymoedd Gorllewinol), a'i bod yn hawdd i ymgeiswyr ei defnyddio. Mae'r **Adroddiad ar y Broses o Werthuso Buddsoddi mewn Adfywio a Dargedir Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid** yn cynnwys llawer o ganfyddiadau defnyddiol sy'n gallu llywio datblygiad y broses ymgeisio am grantiau. Ar gyfer grantiau bach, dylid sicrhau nad yw'r gwaith monitro na lefel y gwaith papur yn mynd yn anghymesur i lefel y cyllid (Astudiaeth o Opsiynau'r Dyfodol ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd). Roedd y rhai a dderbyniodd y Grant Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol o'r farn fod y broses o gyflwyno cais a'r cymorth cysylltiedig yn rhagorol (gwerthusiad o'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol) a gall fod yn enghraifft o arfer da.

- **Pennu terfynau amser ymarferol ar gyfer gwariant, neu i sicrhau canlyniadau**. Oherwydd graddfa'r heriau perthnasol, mae angen llawer o amser (dros 3 blynedd) i sicrhau llwyddiant mentrau sy'n ceisio cynyddu cyfraddau cyflogaeth ymysg y rhai sy'n byw yn bell o'r farchnad lafur (gwerthusiad o Gynlluniau Braenaru Strategaeth Dinasoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau). Mae angen neilltuo digon o amser i sefydlu mentrau sy'n canolbwyntio ar brosiectau adfywio ffisegol fel y gallant gynllunio eu dull gweithredu mewn ffordd strategol. Nid yw'n hawdd gwario cyllidebau mawr yn y flwyddyn gyntaf – dylid osgoi gofynion "gwario'r arian neu golli'r arian") mewn blynyddoedd ariannol (adroddiad terfynol ar Ardal Adfywio Strategol y Barri).

# Y gwersi a ddysgwyd

*"Despite the significant investment in physical remediation, the socio-economic legacy of decline in the south Wales Valleys was little remedied"*

Prifysgol Caerdydd (2014) t. 8 o'r cyflwyniad i The Valleys Regional Park Phase 1 Evaluation

*"The long-term future of the Valleys, it is argued, lies in a combination of commuting to Cardiff and local overspill of jobs… In essence, the Valleys will become a dormitory suburb. This theory is not unique to south Wales. It can be heard in other parts of Britain as well where the fashion is equally for promoting growth in the 'core cities' and trusting that the rest of the regions will follow behind. One of the key stumbling blocks is simply one of scale... Cardiff is a surprisingly small city to support a very large hinterland."*

Sefydliad Materion Cymreig (2008) *Futures of the Valleys* t. 8

- Mae'r sefyllfa wedi gwella o safbwynt pob un o'r pedair "problem anhydrin" sy'n rhwystro adfywiad economaidd y Cymoedd. Mae lefelau sgiliau yn gwella; mae rhwystrau iechyd yn lleihau; mae lefelau cysylltedd â dinasoedd cyfagos yn cynyddu, ac mae'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig wedi'u gwella'n sylweddol. Mae rhywfaint o'r gwelliant hwn yn debygol o fod wedi deillio o raglenni adfywio, ond nid oes digon o dystiolaeth ar gael i wybod faint yn union. Hefyd, er bod tystiolaeth dda o gynnydd mewn rhai ardaloedd, mae llai o dystiolaeth o lawer bod bylchau rhwng y rhanbarth a gweddill Cymru a'r DU yn cau. Yn nhermau tlodi cymharol, mae'r bylchau yn bwysicach na'r sefyllfa gyffredinol. O ran incwm aelwydydd, mae'n ymddangos bod y bylchau hynny'n parhau i gynyddu.

- Mae'n debygol iawn bod ein gwasanaethau cyhoeddus craidd ym meysydd sgiliau, trafnidiaeth a busnes wedi cael llawer mwy o effaith ar adfywiad macro-economaidd y rhanbarth na'r hyn sydd wedi'i ddisgrifio fel 'rhaglenni adfywio' hyd yn hyn. Lefelau cymharol y cronfeydd ariannol yw'r rheswm pennaf am hynny, ond rheswm arall yw'r ffaith nad yw ein rhaglenni adfywio seiliedig ar leoedd wedi cynnwys trafnidiaeth a sgiliau fel prif ganolbwynt eu gweithgareddau.

- Ceir tystiolaeth bod cynyddu sgiliau pobl sydd â'r cymwysterau isaf yn debygol o fod yn strategaeth hirdymor da i hybu economi'r rhanbarth. Byddai hyn yn cynnwys canolbwyntio polisïau ar addysg y blynyddoedd cynnar a sgiliau cyflogadwyedd oedolion, a gellid cynnwys hyn yn ein rhaglenni adfywio seiliedig ar leoedd.

- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod dinas-ranbarthau yn rhan o'r ateb hefyd: Caerdydd, Abertawe, Casnewydd ac efallai Merthyr Tudful tua'r gogledd. Mae cynnwys polisi trafnidiaeth mewn rhaglenni adfywio seiliedig ar leoedd yn hollbwysig.

- Dylai'r cynlluniau cyffredinol gynnwys mentrau cymunedol ac adfywio canol trefi.

*"Locally-based community initiatives cannot substitute for top-down policies to attract inward investment and jobs, and to improve infrastructure, but such policies can be constructed and implemented in ways that help rather than hinder community initiatives. Local initiatives can help create valuable forms of socially-useful work. As such, they can enhance the quality of life of people in deprived places. However, in no sense should the jobs that they provide be seen as a replacement for well-paid jobs provided in the formal sector of the economy. The issue is how these various forms of work and employment might be best combined to help meet social needs in particular places"*

*Sefydliad Joseph Rowntree (2000) t. 43.*

# Atodiad 1.Dangosyddion adfywio ym maes glo De Cymru o gymharu â meysydd glo eraill, ac o gymharu â Phrydain a Chymru yn gyffredinol (o'r *State of the Coalfields Report, Prifysgol Sheffield Hallam 2014)*

| Dangosyddion Adfywio | Maes glo De Cymru | Holl feysydd glo Prydain | Maes glo Durham | Maes glo Swydd Efrog | Prydain gyfan | Cymru gyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Twf poblogaeth 2001-2011 | 3.2% | 3.5% | -0.1% | 2.8% | 7.5% | 5.5% |
| Disgwyliad oes cyfartalog gwrywod adeg geni (2008-2010) | 76 | 77 | 77 | 77 | 78 | 78 |
| Problem iechyd hirdymor: gweithgareddau bob dydd yn cael eu cyfyngu llawer (2011) | **9.8%** | 7.6% | 8.6% | 7.4% | 5.6% | 7.6% |
| Cyfradd hawlwyr Lwfans Byw i'r Anabl ymysg y grŵp oedran 15-59 (2013) | **7.6%** | 6.1% | 6.1% | 5.6% | 4.6% | 6.2% |
| Newid mewn cyflogaeth 2008-2012 | **-3.9%** | -2.5% | -0.3% | -2.3% | -1.0% | -1.4% |
| Dwysedd swyddi (# fesul 100 o drigolion oedran gweithio) | **41** | 50 | 58 | 55 | 67 | 61 |
| Busnesau wedi'u cofrestru at ddibenion TAW neu PAYE fesul 10,000 o drigolion (2012) | **208** | 256 | 220 | 251 | 377 | 287 |
| Busnesau newydd wedi'u cofrestru at ddibenion TAW neu PAYE fesul 10,000 o drigolion (2012) | **21** | 27 | 24 | 28 | 43 | 27 |
| Cyfradd cyflogaeth (16-64 oed ac eithrio myfyrwyr) 2011 | **65.7%** | 69.6% | 68.0% | 70.3% | 71.0%* | 68.0% |
| Enillion canolrif fesul awr dynion (Prydain=100) (2012) | 88 | 92 | 89 | 88 | 100 | 90 |
| Enillion canolrifol fesul awr menywod (Prydain=100) (2012) | 93 | 93 | 96 | 86 | 100 | 92 |
| Canran y gweithlu sy'n rheolwyr ac yn weithwyr proffesiynol (2011) | 21% | 21% | 21% | 22% | 28% | 25% |
| Canran y gweithlu sydd â swyddi coler wen eraill (2011) | 22% | 22% | 23% | 21% | 24% | 22% |
| Canran y gweithlu sydd â swyddi crefftus â llaw (2011) | 13% | 13% | 12% | 13% | 12% | 14% |
| Canran y gweithlu sydd â swyddi eraill â llaw (2011) | 44% | 44% | 43% | 44% | 36% | 40% |
| Canran y rhai rhwng 16 a 64 oed nad oes ganddynt gymwysterau | **23%** | 18%* | 19% | 21% | 15%* | 18% |
| Canran y disgyblion a gafodd 5 neu fwy o raddau A*-C - 2012 | **76%** | 83%* | 90% | 84% | 83%* | 78% |
| Canran y bobl oedran gweithio yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith - 2013/14 | 3.9% | 3.7% | 4.4% | 3.9% | 3.0% | 3.5% |
| Canran y bobl oedran gweithio yn hawlio IB/SDA/ESA 2013/14 | **11.2%** | 8.4% | 9.1% | 7.8% | 6.2% | 8.4% |
| Canran y bobl oedran gweithio yn hawlio pob budd-dal di-waith - 2013/14 | **17.1%** | 14.1% | 15.8% | 13.6% | 10.9% | 13.6% |
| Canran diweithdra ILO ymysg pobl oedran gweithio - 2012/13 | 7.5% | 6.9% | 8.1% | 8.0% | 6.1% | 6.1% |
| Canran diweithdra 'gwirioneddol' ymysg pobl oedran gweithio - 2012 | **13.9%** | 10.1% | 11.4% | 11.5% | 8.8% | 10.3% |

| Dangosyddion Adfywio | Maes glo De Cymru | Holl feysydd glo Prydain | Maes glo Durham | Maes glo Swydd Efrog | Prydain gyfan | Cymru gyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Newid mewn pwyntiau canran ar gyfer cyfradd hawlwyr pob budd-dal di-waith 2008-2013/14 | **-1.9 pp** | -0.69 pp | -0.8 pp | 0.0 pp | -0.1 pp | -0.9 pp |
| Diweithdra ymysg pobl ifanc 16-24 oed (2011) | 14.5% | 14.3% | 15.6% | 14.5% | 12.2% | 12.1% |
| Cyfradd hawlwyr Credyd Pensiwn - 2013 | 29.6% | 27.2% | 32.0% | 26.4% | 23.6% | 25.7% |
| Effaith amcangyfrifedig diwygiadau lles (£ a gollir bob blwyddyn ymysg pobl oedran gweithio) | **£670** | £550 | £590 | £580 | £470 | |
| Canran yr aelwydydd â pherchen-feddianwyr - 2011 | 70% | 67% | 64% | 67% | 64% | 68% |
| Canran yr aelwydydd rhentu cymdeithasol - 2011 | 17% | 21% | 25% | 20% | 18% | 17% |
| Canran yr aelwydydd rhentu preifat – 2011 | 13% | 13% | 12% | 13% | 18% | 16% |
| Canran yr LSOAs yn y 30% mwyaf difreintiedig yn y DU | **54%** | 43% | 51% | 42% | 30% | 34% |

*Cymru a Lloegr, nid Prydain

# Atodiad 2 – Llinell amser o rai o'r prif raglenni adfywio seiliedig ar leoedd yn y Cymoedd[12]

Mae hyperddolenni i adroddiadau gwerthuso wedi'u cynnwys os ydynt wedi'u hadolygu ar gyfer y papur hwn – mae'n bosibl bod eraill ar gael hefyd, ond nid ydynt wedi'u hadolygu eto.
*Noder bod y rhan fwyaf ohonynt yn weithgareddau adfywio seiliedig ar ardaloedd, ac nad yw'r rhestr yn cynnwys llawer o'r mentrau Cymru gyfan sydd wedi cynorthwyo i ysgogi adfywiad yn y Cymoedd (ym meysydd datblygu sgiliau, arloesi ac effeithlonrwydd busnes yn benodol).*

| | |
|---|---|
| *1913* | *Mae cyflogaeth a chynhyrchiant yn y diwydiant glo yng Nghymru yn cyrraedd penllanw: cyflogir 232,800 o bobl a chynhyrchir 56 miliwn o dunelli.* |
| *1947* | *Mae cyflogaeth yn y diwydiant glo yn gostwng i 144,930 (mewn 214 o byllau glo)*[13] |
| *1960* | *Mae cyflogaeth yn y diwydiant glo yn gostwng i 83,400 (mewn 127 o byllau glo)* |
| 1966 – 1975 | Mae **Uned Tir Diffaith** y Swyddfa Gymreig yn buddsoddi £24m i adfywio 7,600 erw o dir drwy symud seilwaith mwyngloddio, capio pyllau glo a hadu tua 500 miliwn tunnell o dir gwastraff glofeydd . |
| *1970* | *Mae cyflogaeth yn y diwydiant glo yn gostwng i 38,000 (mewn 52 o byllau glo)* |
| 1976 - 1978 | Mae Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) yn derbyn cyfrifoldeb am waith **adfer tir** ac yn lansio rhaglen gwerth £246 i adfer 4,000 o erwau eraill. |
| *1980* | *Mae cyflogaeth yn y diwydiant glo yn gostwng i 25,328 (mewn 35 o byllau glo)* |
| 1986 | Mae Buddsoddiad Cymunedol: Menter ar gyfer y Cymoedd gan y Swyddfa Gymreig yn canolbwyntio ar **welliannau amgylcheddol** er mwyn hyrwyddo buddsoddiad preifat yn ardaloedd y Cymoedd. |
| 1987 – 1994 | Mae **Uned Adnewyddu Trefol y WDA** yn canolbwyntio ar saith ardal 'anghenus', gan weithio trwy bartneriaethau cyhoeddus/preifat i ymgymryd â gwaith adfywio seiliedig ar eiddo. Newidiwyd hyn i'r Rhaglen Datblygu Trefol ym 1991, gan ymestyn y rhaglen i 30 lleoliad yng Nghymru cyn dod i ben ym 1994. |
| 1987 – 2001 | Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. |
| 1988 – 1995 | Mae'r Swyddfa Gymreig yn cyflwyno ei **Rhaglen i'r Cymoedd**, sy'n werth dros £770 miliwn ac yn cael ei hategu gan tua £700m o fuddsoddiad gan y sector preifat. Roedd y rhaglen yn seiliedig ar ddull gweithredu partneriaeth ym meysydd addysg a hyfforddiant, seilwaith ffisegol, twristiaeth, iechyd a thai (er bod Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru yn dweud bod y rhaglen wedi canolbwyntio'n bennaf ar glirio tir diffaith a darparu gofod diwydiannol a masnachol). Llwyddodd y rhaglen i greu neu ddiogelu tua 24,000 o swyddi, creu 2.6 miliwn troedfedd sgwâr o ofod llawr diwydiannol newydd, clirio dros 2,000 erw o dir diffaith, a gwella dros 7,000 o gartrefi. Ychwanegodd David Hunt elfen newydd maes o law pan lansiodd 'Y Cymoedd yn Fyw' o dan nawdd Cymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru yn ystod blwyddyn yr Ŵyl Erddi er mwyn ysgogi amrywiaeth eang iawn o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol yn y cymoedd. |
| *1990* | *Mae cyflogaeth yn y diwydiant glo yn gostwng i 1,200 (mewn tri phwll glo)* |
| 1990 – heddiw | Cyflwyno Rhaglen Groundwork Cymru. |
| 1992 | Gŵyl Erddi Glynebwy. |
| *1994* | *Y pwll glo olaf yn cau* |

---

[12]Addaswyd o http://www.regenwales.org/upload/pdf/110612105518Regeneration%20in%20Wales%20-%20An%20Analytical%20Timeline.pdf
[13]Mining employment in the South Wales Coalfield 1947-1994 (from *Coalfields regeneration: Dealing with the consequences of industrial decline*, Bennett et al (2000) Sefydliad Joseph Rowntree)

1998 Menter **Glasu'r Cymoedd**, partneriaeth rhwng sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn cynnig "gweledigaeth amgylcheddol newydd" i'r cymoedd ar sail blaenoriaethau fel gweithio gyda'r byd natur a phobl; ystyried hunaniaeth leol ac ymrwymo i gynlluniau arloesol.

2000 – 2006 **Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd**: Ardaloedd Amcan 1, 2 a 3, ac Ardal Cynllun Datblygu Gwledig. Roedd pob un yn cynnwys systemau ariannu cysylltiedig, gan gynnwys £1.4 biliwn rhwng 2000-06 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Adroddiad synthesis: effaith Cronfeydd Strwythurol 2000-2006 ar Gymru.

2000 – 2006 **Rhaglen adfywio cymunedol seiliedig ar ardaloedd Cymru gyfan**, wedi'i rheoli gan y WDA mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.

2001 – 2016 Cyflwyno **Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf**, mewn 142 o ardaloedd bach ledled Cymru yn y lle cyntaf. Mae gan bob ardal fwrdd partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned leol, yr awdurdod lleol ac asiantaethau statudol eraill. Aeth y partneriaethau ati i ddatblygu capasiti cymunedol ac yna nodi anghenion yn eu hardaloedd gan greu cynlluniau i ddiwallu'r anghenion. Ailgynlluniwyd y rhaglen yn 2012 i gynnwys 52 o ardaloedd clwstwr ac i weithredu yn unol â Fframwaith Canlyniadau cenedlaethol cyffredin sy'n seiliedig ar egwyddor Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Archwiliwyd y rhaglen gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2010 a chwblhawyd gwerthusiad o'r broses (2012-2015) yn 2015.

2002-2011 - Datblygwyd **Fframwaith Adfywio'r Pum Sir** ar y cyd gan gynghorau Torfaen, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chasnewydd, y WDA, Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa), gyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd yn cyflwyno cynllun 10 mlynedd i sicrhau twf economaidd ac adfywio ar sail pedair egwyddor:
- Creu economi gynaliadwy yn seiliedig ar wybodaeth;
- Sefydlu is-ranbarth integredig â chysylltiadau da;
- Datblygu diwylliant dysgu gydol oes;
- Ailsefydlu ein trefi fel canolfannau gweithgarwch economaidd.

2002 –heddiw **Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol** (CFAP) – sydd wedi'i hail-lansio fel y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol, gyda mwy o bwyslais ar brosiectau sy'n helpu i drechu tlodi.

2002 –heddiw Cyflwyno **Safon Ansawdd Tai Cymru** sy'n ceisio gwella stoc tai cymdeithasol (gan nodi bod angen i'r holl dai cymdeithasol fodloni'r safon erbyn 2020). Mae angen buddsoddi tua £4 biliwn i sicrhau bod tai yn bodloni'r safon; hefyd, mae'r fenter yn fodd o ddarparu hyfforddiant a chyflogaeth, cynyddu lefelau cyfranogiad cymunedol ym meysydd perchnogaeth a rheolaeth tai, darparu cyflogaeth leol gynaliadwy, a sicrhau cydweithio a chydgysylltu rhanbarthol rhwng sefydliadau darpariaeth.

2003 – 2008 **Cymorth**: Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc (yn ymgorffori rhaglenni blaenorol fel Cychwyn Cadarn a Menter Mynediad Ieuenctid). Darparwyd £235m dros 5 mlynedd drwy awdurdodau lleol i ddarparu rhwydwaith o gymorth ar gyfer plant a phobl ifanc o dan 25 oed.

2003 Sefydlu Cwmni Adfywio Casnewydd

2004 **Cynllun Gofodol Cymru.** Pobl, Lleoedd a Ffyniant yn y Dyfodol, yr adnodd fframwaith ac integreiddio cyffredinol i Gymru, yn sylfaen i ddatblygiad economaidd, datblygu sgiliau, adfywio, buddsoddiad cyfalaf strategol, diwallu anghenion tai fforddiadwy. Roedd y blaenoriaethau ar gyfer y Ddinas-Ranbarth yn cynnwys datblygu dinas-ranbarth wedi'i rhwydweithio gyda system drafnidiaeth o ansawdd uchel, a phwyslais ar yr economi wybodaeth a dysgu gydol oes, y diwydiannau creadigol, diwydiannau gwyrdd a thwristiaeth, a datblygu tai fforddiadwy. Nodwyd pedwar ar ddeg o aneddiadau allweddol: Aberdâr, y Fenni, y Barri, Coed-duon, Pen-

| | |
|---|---|
| | y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Cas-gwent, Cwmbrân/Pont-y-pŵl, Glynebwy, Llantrisant, Merthyr Tudful, Casnewydd a Phontypridd. |
| 2006 | Mae Bwrdd Croeso Cymru, ELWa a'r WDA yn cael eu huno â Llywodraeth Cymru. |
| 2006 - 2014 | **Ardal Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd** gwerth £140m (*Rhaglen Syniadau Blaengar) (Adroddiad mewnol / deunydd wedi'i gyhoeddi).* Defnyddiwyd dull gweithredu holistaidd mewn partneriaeth ag eraill ar gyfer y gwaith adfywio, gan ganolbwyntio ar anweithgarwch economaidd, addysg a sgiliau, iechyd, delwedd, cysylltedd a'r amgylchedd. Ariannwyd rhai cannoedd o brosiectau unigol. |
| 2006 – 2008 | Cyflwyno Rhaglen Gwella Busnesau yn ardaloedd Amcan 1 o Gymru i hybu trosiant cwmnïau bach - "Inspiring Success – from Good to Great" |
| 2007- 2013 | **Yr ail gylch o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd**. Gwariwyd arian ar 290 o brosiectau yn Ardal Gydgyfeirio Cymru (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, £3.5 biliwn gan gynnwys arian cyfatebol) ac ardal Gystadleurwydd (Dwyrain Cymru, £280m). Canolbwyntiodd Cronfa Datblygu Rhanbarthol Cymru ar fuddsoddi yn yr economi wybodaeth, helpu busnesau newydd a busnesau cyfredol i dyfu, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a gwella trafnidiaeth. Hefyd, mae'n ceisio adfywio cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a gwella trafnidiaeth. Canolbwyntiodd Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, cynyddu sgiliau a hybu cyflogaeth. Adroddiad synthesis / Effaith ar Fenter / Effaith ar Sgiliau. |
| 2007 | Cyflwyno menter **Dechrau'n Deg**. |
| 2008 | Cyflwyno menter Genesis Cymru 2 werth £70m i helpu 20,000 o bobl i oresgyn rhwystrau amrywiol sy'n eu hatal rhag cael swyddi neu hyfforddiant. |
| 2009-2014 | Nod rhaglen ERDF **Parc Rhanbarthol y Cymoedd** yw hyrwyddo adfywiad economaidd-gymdeithasol drwy fuddsoddi mewn rhwydwaith o fannau gwyrdd ac asedau treftadaeth o ansawdd uchel, gan ddatblygu twristiaeth a hybu ffordd o fyw iach. Mae wedi cynnwys 39 o brosiectau seilwaith a thirwedd, digwyddiadau a phrosiectau dehongli, gan greu mynediad wedi'i reoli i gefn gwlad, hyfforddiant mewn Twristiaeth Gymunedol, swyddi uniongyrchol mewn canolfannau ymwelwyr, a chyflogaeth ar safleoedd adeiladu. Hefyd, cafwyd ymgyrch farchnata a hyrwyddo 'Calon ac Enaid', a phrosiect WECAN Interreg IV yn canolbwyntio ar fanteision economaidd-gymdeithasol seilwaith gwyrdd. Gwerthusiad Cam 1 / Astudiaeth Dewisiadau'r Dyfodol. |
| 2009–2014 | Rhaglen **Ardal Adfywio Strategol y Cymoedd Gorllewinol** werth £67m (adroddiad mewnol / deunydd wedi'i gyhoeddi), gyda bwrdd partneriaeth a fforymau lleol ym mhob un o'r 8 cwm. Yr amcan oedd buddsoddiad holistaidd mewn pobl a lleoedd o dan chwe thema: canol trefi, safleoedd cyflogaeth, gwelliannau amgylcheddol, atyniadau i ymwelwyr, adfywio ardal y cymoedd a chynlluniau is-ranbarthol. Rhoddwyd portffolio o 243 o brosiectau ar waith. Rhoddwyd y rhan fwyaf o'r cyllid i ganol trefi (£26m) ac i brosiectau cyflogaeth (£16m). |
| 2009 –heddiw | **Rhaglen Arbed** (£113m) – yn gweithio gyda darparwyr tai cymdeithasol i sicrhau bod cymunedau mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru yn fwy effeithlon o ran ynni drwy ôl-ffitio a gosod mathau o dechnoleg ynni adnewyddadwy. Hefyd, roedd pwyslais ar hybu economïau lleol drwy ddefnyddio busnesau lleol i gynhyrchu, cyflenwi a gosod cynifer o'r mesurau â phosibl, a darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer gweithwyr lleol. |
| 2009 | Cyflwyno Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio. |
| 2009 – 2011 | Cynllun Braenaru Strategaeth Dinas ym Mlaenau'r Cymoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau (gyda chyllid o'r Gronfa Cymorth Dewisol) i fynd i'r afael ag ardaloedd |

lle mae llawer o bobl yn parhau i fod yn ddi-waith drwy rymuso sefydliadau lleol i ddod ynghyd mewn partneriaethau.

2009 –heddiw Sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru.

2010 –2014 Rhaglen **Ardal Adfywio Strategol y Barri** werth £9.8m (adroddiad mewnol / deunydd wedi'i gyhoeddi), gyda bwrdd partneriaeth a Themâu a Blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer adfywio. (Dau amcan: cymorth i ddatblygu'r Barri fel lle deniadol i fyw; cymorth i ddatblygu Ynys y Barri fel cyrchfan ar gyfer gwibdeithiau gweithgareddau). Rhaglen gyfalaf oedd hon yn bennaf.


2012 –heddiw Cyflwynwyd y **Grant Amddifadedd Disgyblion** i wella cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig. Ychwanegwyd Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar yn 2015.


2013 - heddiw **Fframwaith adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid**, gyda chwe rhaglen fuddsoddi gan gynnwys Buddsoddiad mewn Adfywio a Dargedir sy'n darparu gwerth £100m dros dair blynedd ar gyfer 11 o ganol trefi, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, neu ardaloedd arfordirol (gan gynnwys Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful) a'r cronfeydd ychwanegol llai o ran maint canlynol: Cronfa Trechu Tlodi, Cronfa Partneriaeth Canol Trefi a Chronfa Benthyciadau Canol Trefi.


2014 – 2020 – Dechrau **Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020**. Bydd gwerth £1.8 biliwn o gyllid Ewropeaidd ar gael, gan gynnwys Cronfa Gymdeithasol Ewrop werth £594.3m yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae prosiectau o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop Blaenoriaeth 1 – Trechu Tlodi trwy Gyflogaeth Gynaliadwy – yn cynnwys ReACT III, Cymunedau dros Waith, Cymru Iach ar Waith (Y Gwasanaeth Di-waith) a PaCE. Mae prosiectau o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop Blaenoriaeth 2 (Sgiliau ar gyfer Twf) a Blaenoriaeth 3 (Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid) yn cynnwys Sgiliau Hanfodol ar gyfer Oedolion sy'n Gweithio, Twf Swyddi Cymru 2, Hyfforddeiaethau, ac Inspire2Acheive.


2015 - 2020 Lansio **Cymunedau dros Waith.**


# Atodiad 3. Newidiadau dros amser mewn lefelau sgiliau yn awdurdodau lleol y Cymoedd (data wedi'i gyhoeddi ar StatsCymru. Data sgiliau a Data addysg)





% Working age adults (minus those in FT education) qualified to NQF Level 3 or above
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
2004 2005 2006 2007 2008 2009 2010 2011 2012 2013 2014 2015
NPT
Bridgend
RCT
Merthyr Tydfil
Caerphilly
Blaenau Gwent
Torfaen
Newport
Swansea
Cardiff
Wales


% Working age adults (minus those in FT education) qualified to NQF Level 4 or above
50%
45%
40%
35%
30%
25%
20%
15%
10%
2004 2005 2006 2007 2008 2009 2010 2011 2012 2013 2014 2015
NPT
Bridgend
RCT
Merthyr Tydfil
Caerphilly
Blaenau Gwent
Torfaen
Newport
Swansea
Cardiff
Wales


% Pupils aged 15 achieving Level 1
100%
95%
90%
85%
80%
75%
70%
65%
1995/1996 1996/1997 1997/1998 1998/1999 1999/2000 2000/2001 2001/2002 2002/2003 2003/2004 2004/2005 2005/2006 2006/2007 2007/2008 2008/2009 2009/2010 2010/2011 2011/2012 2012/2013 2013/2014 2014/2015
NPT
Bridgend
RCT
Merthyr Tydfil
Caerphilly
Blaenau Gwent
Torfaen
Newport
Swansea
Cardiff
Wales


% Pupils aged 15 achieving Level 2
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
1995/1996 1996/1997 1997/1998 1998/1999 1999/2000 2000/2001 2001/2002 2002/2003 2003/2004 2004/2005 2005/2006 2006/2007 2007/2008 2008/2009 2009/2010 2010/2011 2011/2012 2012/2013 2013/2014 2014/2015
NPT
Bridgend
RCT
Merthyr Tydfil
Caerphilly
Blaenau Gwent
Torfaen
Newport
Swansea
Cardiff
Wales

Graff 1:
**Canran oedolion oedran gweithio (ac eithrio'r rhai mewn addysg llawn amser) heb unrhyw gymwysterau**
Castell-nedd Port Talbot
Pen-y-bont ar Ogwr
Rhondda Cynon Taf
Merthyr Tudful
Caerffili
Blaenau Gwent
Torfaen
Casnewydd
Abertawe
Caerdydd
Cymru

Graff 2:
**Canran oedolion oedran gweithio (ac eithrio'r rhai mewn addysg llawn amser) â chymwysterau NQF Lefel 2 neu uwch**
Castell-nedd Port Talbot
Pen-y-bont ar Ogwr
Rhondda Cynon Taf
Merthyr Tudful
Caerffili
Blaenau Gwent
Torfaen
Casnewydd
Abertawe
Caerdydd
Cymru

Graff 3:
**Canran oedolion oedran gweithio (ac eithrio'r rhai mewn addysg llawn amser) â chymwysterau NQF Lefel 3 neu uwch**
Castell-nedd Port Talbot
Pen-y-bont ar Ogwr
Rhondda Cynon Taf
Merthyr Tudful
Caerffili
Blaenau Gwent
Torfaen
Casnewydd
Abertawe
Caerdydd
Cymru


Graff 4:
**Canran oedolion oedran gweithio (ac eithrio'r rhai mewn addysg llawn amser) â chymwysterau NQF Lefel 4 neu uwch**
Castell-nedd Port Talbot
Pen-y-bont ar Ogwr
Rhondda Cynon Taf


Merthyr Tudful
Caerffili
Blaenau Gwent
Torfaen
Casnewydd
Abertawe
Caerdydd
Cymru


Graff 5:
**Canran disgyblion 15 oed yn cyflawni Lefel 1**
Castell-nedd Port Talbot
Pen-y-bont ar Ogwr
Rhondda Cynon Taf
Merthyr Tudful
Caerffili
Blaenau Gwent
Torfaen
Casnewydd
Abertawe
Caerdydd
Cymru

Graff 6:
**Canran disgyblion 15 oed yn cyflawni Lefel 2**
Castell-nedd Port Talbot
Pen-y-bont ar Ogwr
Rhondda Cynon Taf
Merthyr Tudful
Caerffili
Blaenau Gwent
Torfaen
Casnewydd
Abertawe
Caerdydd
Cymru

# Atodiad 4. Newidiadau mewn lefelau cymudo i mewn / cymudo allanol rhwng 2001 a 2011 yn Rhanbarth y Cymoedd (ffynonellau – y Cyfrifiad)







Graff 1:
Nifer y cymudwyr 2011
Blaenau Gwent
Pen-y-bont ar Ogwr
Caerffili
Caerdydd
Merthyr Tudful
Castell-nedd Port Talbot
Casnewydd
Rhondda Cynon Taf
Abertawe
Torfaen
I mewn
Allan

Graff 2:
Nifer y cymudwyr 2011
Blaenau Gwent
Pen-y-bont ar Ogwr
Caerffili
Caerdydd
Merthyr Tudful
Castell-nedd Port Talbot
Casnewydd
Rhondda Cynon Taf
Abertawe
Torfaen
I mewn
Allan

Graff 3:
NEWID 2001-2011
Blaenau Gwent
Pen-y-bont ar Ogwr
Caerffili
Caerdydd
Merthyr Tudful
Castell-nedd Port Talbot
Casnewydd
Rhondda Cynon Taf
Abertawe
Torfaen
I mewn
Allan

## **Atodiad 5 Newidiadau i Incwm Aelwydydd a Gwerth Ychwanegol Gros yn ardal y Cymoedd** (o bapur Jonathan Price ar Gyd-destun Economaidd, haf 2016)





**Ardaloedd NUTS 3 y Cymoedd: Incwm Aelwydydd (DU=100)**
Cymru
Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot
Y Cymoedd (gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr)
Y Cymoedd Canol
Cymoedd Gwent

**Prif negeseuon:**

- Mae'r siart yn dangos incwm aelwydydd domestig gros cymharol (GDHI) y pen. Dyma'r incwm y mae pobl yn ei dderbyn ar ôl treth a didyniadau eraill ac ar ôl derbyn taliadau pensiwn, credydau treth a budd-daliadau eraill (nid yw'n cynnwys gwasanaethau cyhoeddus wedi'u derbyn mewn nwyddau).

- Mae'n debyg mai GDHI yw'r dangosydd unigol gorau sydd ar gael o safonau byw materol. Yn wahanol i gynnyrch domestig gros y pen, mae perfformiad cymharol y Cymoedd wedi dirywio ers tua 2005, ac mae Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot, a Chymoedd Gwent, yn dangos tuedd dirywio hirach. Cafwyd gwelliant cymharol sylweddol ym mherfformiad y Cymoedd Canol yn ystod pum mlynedd gyntaf y mileniwm newydd.





**Ardaloedd NUTS 3 Cymru: twf yng nghyfanswm y GVA**

**2012-14 o'i gymharu â 1997-99**

Ynys Môn
De-orllewin Cymru
Gwynedd
Caerdydd a Bro Morgannwg
Y Cymoedd Canol
Abertawe
Conwy a Sir Ddinbych
Cymru
Y Cymoedd (gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr)
Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot
Powys
Sir y Fflint a Wrecsam
Sir Fynwy a Chasnewydd
Cymoedd Gwent


**Prif negeseuon**

- Mae'r siart yn dangos canran y twf yng nghyfanswm y gwerth ychwanegol gros mewn prisiau cyfredol (h.y. fe'i dangosir fel ffigur agregedig, nid ar sail y pen).
- Mae hyn yn darparu mynegiant cyffredinol o gyfraddau cymharol twf economaidd ledled Cymru.
- Ledled y DU yn ei chyfanrwydd, mae dibyniaeth ar weithgynhyrchu wedi'i chysylltu â thwf cymharol araf, ac mae'r patrwm hwn yn amlwg yng Nghymru hefyd. Mae ardal Gwent, a Chymoedd Gwent yn benodol (Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen), yn perfformio'n wan yn y cyswllt hwn.
- Mae'r patrymau hyn yn adlewyrchu effeithiau lluosog, felly nid oes modd nodi unrhyw achos unigol ar gyfer perfformiad ardal.





Caerdydd a Bro Morgannwg
Y Cymoedd Canol (Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf)
Cymoedd Gwent (Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen)
Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot
Abertawe
Sir Fynwy a Chasnewydd
Cymru
Y Deyrnas Unedig


# Atodiad 6 – Newidiadau i iechyd trigolion y Cymoedd dros amser




Canran y trigolion oedran gweithio yn hawlio unrhyw gyfuniad o Fudd-dal Analluogrwydd, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Lwfans Byw I'r Anabl, neu Lwfans Anabledd Difrifol

Castell-nedd Port Talbot
Pen-y-bont ar Ogwr
Rhondda Cynon Taf
Merthyr Tudful
Caerffili
Blaenau Gwent
Torfaen
Casnewydd
Abertawe
Caerdydd
Cyfanswm yr Awdurdodau Lleol hyn




Graff 1:
Disgwyliad oes dynion (blynyddoedd)
Blaenau Gwent
Pen-y-bont ar Ogwr

Caerffili
Caerdydd
Merthyr
Casnewydd
Castell-nedd Port Talbot
Rhondda Cynon Taf
Abertawe
Torfaen
Cymru

Graff 2:
Canran yr oedolion a nododd fod statws eu hiechyd cyffredinol yn weddol/gwael (Arolwg Iechyd Cymru)
Abertawe
Castell-nedd Port Talbot
Pen-y-bont ar Ogwr
Caerdydd
Rhondda Cynon Taf
Merthyr Tudful
Caerffili
Blaenau Gwent
Torfaen
Casnewydd
Cymru